Number: **WG24128**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymatebion

# Strategaeth Ddŵr i Gymru

Dyddiad Cyhoeddi: **Ionawr 2015**

ISBN digidol 978 1 4734 2859 1
© Hawlfraint y Goron 2015

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd gan Lywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar Strategaeth Ddŵr i Gymru.

## Cynulleidfa

Rheoleiddwyr dŵr, y diwydiant dŵr, Llywodraeth Leol, Awdurdodau Parc Cenedlaethol, unigolion preifat a busnesau, cymdeithasau masnach a chyrff cynrychioliadol, sefydliadau amgylcheddol a chadwraeth, sefydliadau Iechyd y Cyhoedd

## Rhagor o Wybodaeth

Gellir cysylltu â Changen Polisi Dŵr Llywodraeth Cymru yn:

Y Gangen Dŵr
Yr Is-adran Ynni, Dŵr a Llifogydd
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2036 8004
E-bost: water@wales.gsi.gov.uk

## Copïau Ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn http://wales.gov.uk/consultations/?lang=cy

## Cynnwys

**Cyflwyniad**……………………………………………………………………………

**Crynodeb o'r Ymatebion**

Trosolwg………………………………………………………………………..4

Cynigion: Adran 1……………………………………………………………..6

Cynigion: Adran 2……………………………………………………………12

Cynigion: Adran 3……………………………………………………………20

Cynigion: Adran 4……………………………………………………………26

Cynigion: Adran 5…………………………………………………… ….….30

Cynigion: Adran 6………………………………. …………….…………….33

Cynigion: Adran 7…………………….. ……………………………………..36

**Rhestr Lawn o'r Ymatebwyr..**………………………………………………...41

## 1. Cyflwyniad

Lansiwyd yr Ymgynghoriad ar Strategaeth Dŵr i Gymru ar 7 Ebrill 2014 a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion iddi oedd 4 Gorffennaf 2014. Nodwyd cyfanswm o 29 o gwestiynau yn yr ymgynghoriad er mwyn i unigolion a sefydliadau ymateb iddynt a darparwyd ffurflen ar-lein er mwyn hwyluso'r broses o'i dychwelyd.

Bydd y Strategaeth Ddŵr derfynol yn nodi'r cyfeiriad polisi hirdymor ar gyfer Llywodraeth Cymru o ran dŵr. Y bwriad yw cydbwyso anghenion amgylchedd cynaliadwy a chadarn â'r angen i sicrhau bod adnoddau dŵr a gwasanaethau dŵr gwastraff digonol, dibynadwy a fforddiadwy ar gael i hyrwyddo twf cynaliadwy a chreu swyddi yn y dyfodol.

Mae datblygu ffordd fwy integredig o reoli dŵr yn allweddol i'n dull arfaethedig; bydd hyn yn rhan o ddull ehangach Llywodraeth Cymru o reoli adnoddau naturiol. Bydd rheoli ein hadnoddau dŵr mewn ffordd fwy integredig yn helpu i hyrwyddo rheoli adnoddau dŵr, adnoddau tir ac adnoddau cysylltiedig mewn modd cydgysylltiedig. Bydd hyn, yn ei dro, yn ein helpu i sicrhau'r manteision economaidd a chymdeithasol mwyaf posibl mewn modd teg tra'n diogelu ecosystemau hanfodol a'r amgylchedd.

Roedd y 29 o gwestiynau yn yr ymgynghoriad yn cwmpasu cyfeiriad polisi cyfan Llywodraeth Cymru ar gyfer dŵr yn y dyfodol, ac roeddent wedi'u rhannu ar draws saith maes â blaenoriaeth.

Er mwyn helpu i ddatblygu'r strategaeth hon, gwnaethom drefnu cyfres o weithdai a cheisio cyngor gan lawer o unigolion a sefydliadau. Roedd eu harbenigedd a'u gwybodaeth ym maes rheoli dŵr yn amhrisiadwy wrth lywio cynigion yr ymgynghoriad.

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a'r rhai a fu'n bresennol yn y gweithdai yn cytuno â'r cyfeiriad a'r blaenoriaethau cyffredinol a nodir yn y Strategaeth Ddŵr i Gymru, lle y rhoddwyd barn ar y cyfeiriad hwn. Canolbwyntiodd llawer o'r ymatebion a gafwyd ar awgrymu rhagor o feysydd gweithredu a chodi materion penodol, er na wnaethant godi pryderon ynghylch y polisi cyffredinol.

Mae pob ymateb wedi'i ystyried yn llawn a bydd y dadansoddiad o'r ymatebion hyn yn llywio cam olaf y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Ddŵr newydd i Gymru.

Isod ceir crynodeb o'r ymatebion, wedi'u rhannu'n benodau fel y'u nodir yn y ddogfen ymgynghori, gyda themâu wedi'u nodi lle y dangosodd ymatebwyr lefel uchel o gysondeb.

Hoffai Llywodraeth Cymru fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac i bob un a ddaeth i'r gweithdai ar y strategaeth a gynhaliwyd wrth ddatblygu'r ddogfen ymgynghori hon.

## 2. Crynodeb o'r Ymatebion


### 2.1 Trosolwg

Cafwyd cyfanswm o 59 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Cafwyd ymatebion gan amrywiaeth eang o sefydliadau gan gynnwys y canlynol: y diwydiant dŵr, grwpiau cadwraeth a grwpiau amgylcheddol, unigolion preifat, busnesau, llywodraeth leol, sefydliadau iechyd y cyhoedd, rheoleiddwyr, cyrff proffesiynol a chynrychiolwyr defnyddwyr

Dangosir dadansoddiad o'r ymatebion isod yn Nhabl 1 a Ffigur 1:

| Tabl 1: Dadansoddiad o'r ymatebwyr yn ôl sector | | |
|---|---|---|
| **Sector** | **Nifer** | **% o'r cyfanswm** |
| **Cyrff a Chymdeithasau Proffesiynol** | 12 | 20% |
| **Unigolion Preifat a Busnesau** | 11 | 19% |
| **Sefydliadau Cadwraeth/Amgylcheddol** | 8 | 14% |
| **Y Diwydiant Dŵr** | 7 | 12% |
| **Cyrff Iechyd a Diogelwch Cyhoeddus** | 5 | 9% |
| **Asiantaeth y Llywodraeth** | 2 | 3% |
| **Cyrff Defnyddwyr** | 2 | 3% |
| **Awdurdodau Lleol** | 2 | 3% |
| **Arall** | 10 | 17% |

**Ffigur 1: Dadansoddiad o'r ymatebion yn ôl sector**




Rhoddodd 80% o'r ymatebwyr atebion i rai o'r cwestiynau a geir yn y ddogfen ymgynghori neu bob un ohonynt. Fodd bynnag, ymatebodd sawl ymatebydd i'r ymgynghoriad yn ei gyfanrwydd ac ychwanegodd rhai sylwadau pellach ar bolisi dŵr yng Nghymru at y cwestiynau penodol.

Oherwydd cwmpas eang y Strategaeth Ddŵr i Gymru mae'n anodd disgrifio llawer o'r ymatebion fel rhai sy'n 'gadarnhaol neu'n negyddol yn gyffredinol'. Fodd bynnag, mae'r graff canlynol yn nodi nifer yr ymatebion yr ystyriwyd mai 'cadarnhaol neu negyddol yn gyffredinol' yw'r disgrifiad gorau ar eu cyfer. Mae

hefyd yn nodi nifer yr ymatebion lle mai 'niwtral' yw'r disgrifiad gorau ar eu cyfer.

## 2.2 Cynigion: Adran 1 - Dŵr ar gyfer Natur, Pobl a Busnesau

Mae'r adran hon yn nodi sut rydym yn bwriadu i'n hadnoddau dŵr gael eu rheoli'n gynaliadwy, gan ddiwallu anghenion cymdeithas a chynnig cyfleoedd ar gyfer twf gwyrdd tra'n diogelu ac yn gwella ein hamgylchedd naturiol.

**Cwestiwn 1:**
**O safbwynt gweithredu'r ddeddfwriaeth, a oes unrhyw feysydd penodol yr hoffech i ni ganolbwyntio arnynt?**

Cafwyd 30 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

**Pwyntiau a Themâu Allweddol**

- Nododd nifer o ymatebwyr eu bod o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o sylw i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (CFfD). Pwysleisiodd llawer o'r rhain y byddai cymryd camau pellach yn y maes hwn yn dod â manteision llawer ehangach y tu hwnt i'r amgylchedd dŵr.

- Cytunodd sawl ymatebydd fod rheoli dalgylchoedd yn bwysig er mwyn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r CFfD, yn ogystal â helpu i gyflawni cyfarwyddebau eraill e.e. y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

- Awgrymodd ymatebwyr eraill y dylid cyflwyno Rheolau Rhwymo Cyffredinol, fel dull cymesur o atgyfnerthu'r gyfundrefn reoleiddio ar gyfer diogelu dŵr a mynd i'r afael â llygredd gwasgaredig.

- Gofynnodd un ymatebydd am i waith gael ei wneud i symleiddio'r fframwaith deddfwriaethol presennol sy'n ymwneud â dŵr.

- Ceisiodd un ymatebydd eglurhad pellach ynghylch priod leoliadau pwerau a chyfrifoldebau sy'n gymwys o dan ddeddfwriaeth genedlaethol bresennol y DU ynglŷn â dŵr a'r cyfle sydd i Gymru ddeddfu yn y dyfodol ar ei rhan ei hun.

- Nododd un ymatebydd yr hoffai weld Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar reoli a diogelu'r amgylchedd hanesyddol fel elfen sylweddol o'r gwaith o ddarparu dull integredig o reoli dŵr.

- Argymhellodd un ymatebydd y dylid atgyfnerthu'r rheoliadau Silwair, Slyri ac Olew Amaethyddol (SSAFO) a'u hymgorffori yn y gyfundrefn Drawsgydymffurfio er mwyn lleihau'r risg o lygredd a achosir gan systemau storio slyri a helpu i reoli gweithgareddau i ffwrdd o'r buarth.

- Nododd un ymatebydd yr hoffai weld rheoliadau adeiladu Rhan G (Glanweithdra, diogelwch dŵr poeth ac effeithlonrwydd dŵr) yn cael eu hadolygu.

**Cwestiwn 2:**
**A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella ac ehangu cyfranogiad cymunedau mewn dulliau rheoli dalgylchoedd integredig?**

Cafwyd 28 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Nododd nifer o ymatebwyr yn benodol eu bod yn cefnogi cynigion Llywodraeth Cymru i wella gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd.

**Pwyntiau a Themâu Allweddol**

- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn mai drwy grwpiau dalgylchoedd sy'n canolbwyntio ar yr ardal leol y daw eu haelodau o'r gymuned leol y gellid sicrhau'r effaith fwyaf. Roedd eraill o'r farn y dylai paneli Cyswllt Rheoli Basn Afon roi cyfeiriad strategol ac roedd ymatebydd arall o'r farn y gallai Llywodraeth Cymru gydgysylltu a/neu gefnogi hyn.

  *'We agree that we must have greater community involvement in order to deliver integrated natural resource management. We suggest that the WFD River Liaison Panels will provide strategic direction but we need to look for innovative solutions to local engagement'*

  \- *Cyfoeth Naturiol Cymru*

- Nododd dau ymatebydd fod angen i unrhyw ddull gweithredu a fabwysiedir gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol gyd-fynd â Dull Gweithredu DEFRA sy'n Seiliedig ar Ddalgylchoedd a gweithio'n agos gyda'r partneriaethau dalgylchoedd lleol a sefydlwyd yn ddiweddar.

- Nododd dau ymatebydd y bydd gan sefydliadau yn y trydydd sector fwy o rôl i'w chwarae mewn unrhyw gynlluniau ar gyfer ymgysylltu dinesig yn y dyfodol, yn arbennig am eu bod o'r farn y byddai lefelau adnoddau presennol CNC yn creu rhwystr i ymgysylltu â chymunedau lleol.

- Nododd un ymatebydd fod ymgysylltu rhwng cwsmeriaid a chwmnïau dŵr hefyd yn hanfodol a nododd ymatebydd arall fod angen i grwpiau genweirio ac Ymddiriedolaethau Afonydd lleol chwarae mwy o ran ym mhaneli cyswllt y CFfD ac unrhyw raglenni rheoli dalgylchoedd ehangach.

- Awgrymodd un ymatebydd y dylid llunio taflen er mwyn annog ymgysylltu'n ehangach â'r cyhoedd.

- Roedd un ymatebydd o'r farn bod cynnwys ffermwyr a thirfeddianwyr yn hanfodol i lwyddiant unrhyw raglen rheoli dalgylch.

- Nododd un ymatebydd y gall Prifysgolion gyfrannu at y ddadl a helpu i ddarparu ffocws ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu, drwy ymchwil, technoleg a dulliau arloesol.

- Nid oedd un ymatebydd am weld gweithgarwch ymgysylltu yn cael ei gyfyngu gan ffiniau gwleidyddol.

- Awgrymodd un ymatebydd y dylid egluro ochr ‘drefol’ prosesau dalgylchoedd.

**Cwestiwn 3:**
**Rydym wedi dangos y cysylltiadau agos rhwng rheoli tir a rheoli’r amgylchedd dŵr. A ydych chi’n ymwybodol o enghreifftiau o arfer da y byddai’n bosibl eu hailgynhyrchu mewn mannau eraill?**

Cafwyd 29 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Awgrymodd ymatebwyr nifer o enghreifftiau yn dangos gwaith rheoli tir a dŵr a hefyd i ble y dylid cyfeirio gwaith yn y dyfodol.

**Pwyntiau a Themâu Allweddol**

- Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at arferion ffermio sy'n sensitif i ddalgylchoedd, gan gynnwys Parciau Cenedlaethol Cymru a gyfeiriodd at eu prosiect yn Eryri a oedd yn ceisio gwella ansawdd dŵr yn Llyn Tegid a lleihau nifer yr achosion o flŵm algaidd drwy reoli dŵr ffo a llygredd gwasgaredig o ardaloedd lle y ceir llawer o dda byw.

- Ysgrifennodd RSPB Cymru am ei Phrosiect Gorgorsydd Gweithredol mewn Dŵr yn Llyn Efyrnwy yng Nghanolbarth Cymru, a ariannwyd gan raglen LIFE yr UE, y bwriadwyd iddo fynd i'r afael â materion allweddol sy'n wynebu ucheldiroedd Cymru ac ystyried y sail dystiolaeth wyddonol sydd ei hangen er mwyn llywio gweithgarwch rheoli ucheldiroedd yn y dyfodol. Nodwyd mai dŵr yw'r mater pwysicaf y mae angen mynd i'r afael ag ef ar fyrder, ynghyd â'r goblygiadau o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr a gweithgarwch rheoleiddio, storio carbon a bioamrywiaeth.

- Tynnodd Cyswllt Amgylchedd Cymru sylw at nifer o brosiectau sy'n cael eu cynnal gan aelodau, gan gynnwys y canlynol:
  - RSPB Cymru, Llyn Efyrnwy
  - Prosiect 'Source to Sea' Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru, (sy'n cynnwys Gwarchodfa Natur Severn Farm Ponds, sy'n enghraifft o system ddraenio drefol gynaliadwy, amlswyddogaeth) a Thirweddau Byw Pumlumon
  - Prosiect Pontbren ar y cyd â Coed Cadw a Coed Cymru
  - Dull dalgylch cyfan afon Irfon prosiect ISAC Sefydliad Gwy ac Wysg
  - Prosiect Dalgylch Rhannau Uchaf Afon Conwy yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

- Tynnodd Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru sylw at nifer o'r prosiectau hyn yn eu cyfraniad hefyd.

- Cyfeiriodd United Utilities at nifer o brosiectau gan gynnwys y gwaith y mae wedi'i wneud gydag Ymddiriedolaeth Afonydd Irwell yn Wayoh (Manceinion Fwyaf), ac amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys

Asiantaeth yr Amgylchedd, yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd a Cyfoeth Naturiol Cymru yng nghamlas Llangollen, i fynd i'r afael â phroblemau yn gysylltiedig â phlaladdwyr. Soniodd hefyd am Raglen Rheoli Dalgylchoedd yn Gynaliadwy (SCaMP) United Utilities a fu ar waith ar dir sy'n eiddo i'r cwmni ers 2005, ac ar ddalgylchoedd nad ydynt yn eiddo iddo ers 2010 ac mae ei gynllun peilot ar gyfer dalgylchoedd dŵr gwastraff ar Afon Ellen (Cumbria), sef "Catchment-wise", yn enghraifft arall o arfer da.

- Tynnodd Ofwat a Chymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol sylw at Brosiect 'Upstream Thinking' cwmni South West Waters, lle maent wedi cydweithio â ffermwyr ar reoli dalgylchoedd.

- Tynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru sylw at y canlynol:
  - Dull o reoli tir yn gynaliadwy a arweinir gan ffermwyr ym Mhontbren.
  - Cynlluniau draenio Dŵr Cymru yn Llanelli, Grangetown a Maesteg.

- Cyfeiriodd sawl ymatebydd at enghreifftiau yr oeddent yn ymwybodol ohonynt, y gellid darparu rhagor o fanylion amdanynt ar gais.

**Cwestiwn 4:**
**Pa gyfleoedd ydych chi'n eu rhagweld i ddatblygu cynlluniau TWE mewn cysylltiad â rheoli dŵr yng Nghymru? Beth ydych chi'n credu y dylai Llywodraeth Cymru ei wneud i ddatblygu'r cynlluniau hyn?**

Cafwyd 30 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd yr ymatebwyr yn gefnogol, ar y cyfan, i'r cysyniad o gynlluniau talu am wasanaethau ecosystemau (TWE) mewn perthynas â rheoli dŵr. Roedd nifer o ymatebwyr yn aros am ganlyniad astudiaeth Llywodraeth Cymru o gynlluniau TWE cyn rhoi eu barn.

**Pwyntiau a Themâu Allweddol**

- Roedd cryn nifer o ymatebwyr o'r farn na ddylai unrhyw gynllun TWE danseilio'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu oherwydd ystyrir bod hyn yn hanfodol i lwyddiant unrhyw gynlluniau o'r fath.

- Nododd rhai ymatebwyr y byddai'n well ganddynt pe bai dull TWE yn cael ei ddefnyddio mewn dalgylch yn hytrach nag ar lefel unigol, gan wobrwyo tirfeddianwyr am wella ansawdd dŵr, yn hytrach nag am fabwysiadu dulliau lliniaru penodol.

- Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn bod gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol i'w chwarae o ran creu marchnad TWE a gweithrediad y farchnad honno.

- Hefyd, mynegodd un ymatebydd bryder, yn achos taliadau i ffermwyr, y gallai TWE olygu, i bob diben, y gallai'r rhai sydd wedi gwneud y penderfyniadau amgylcheddol cywir bellach fod o dan anfantais

ariannol. Roedd ymatebydd arall yn pryderu y gallai ffermwyr sy'n cael y taliad sengl gael eu talu ddwywaith am gymryd camau i wella ansawdd dŵr.

- Nododd un ymatebydd y dylid ystyried defnyddio cynlluniau TWE yn ofalus am y gall mathau eraill o ddeddfwriaeth fod yn fwy priodol. Tra nododd ymatebydd arall y bydd angen i unrhyw gynlluniau TWE weithio ochr yn ochr â rheolaethau rheoleiddwyr sylfaenol.

  *'PES schemes have an important role to play but need to be presented as part of a tiered response alongside basic regulatory controls (e.g. General Binding Rules) and voluntary initiatives.'*

  \- *WRc*

- Nododd un ymatebydd y dylai fod dull wedi'i dargedu'n fwy o ymdrin â chynlluniau TWE a datblygu dulliau eraill, er enghraifft cymhellion i'r sector preifat a buddsoddi gan y sector preifat. Gwnaethant awgrymu y gellid defnyddio arian cyhoeddus er mwyn helpu i ddenu'r cyllid hwn, er enghraifft drwy gynnal cynlluniau olynol i Glastir fel cynllun benthyca sy'n helpu i feithrin partneriaethau a hyrwyddo arloesi o ran arfer gorau amgylcheddol, gyda benthyciadau yn cael eu hadennill os eir y tu hwnt i'r trothwyon ariannol ac amgylcheddol a nodwyd.

- Cyfeiriodd un ymatebydd at y posibilrwydd o ddefnyddio'r trydydd sector, fel brocer ar gyfer cynlluniau TWE.

- Mynegodd rhai ymatebwyr bryder ynghylch defnyddio Cyfoeth Naturiol Cymru fel hwylusydd posibl ar gyfer cynlluniau TWE a'r posibilrwydd y gallai hyn, o dan rai amgylchiadau, lle y gall fod rheolwr tir a chyfranogwr, arwain at wrthdaro buddiannau.

**Cwestiwn 5:**
**Beth arall y gallwn ei wneud er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n dŵr, yn arbennig yn nhermau cefnogi ein hagenda ar gyfer Twf Gwyrdd?**

Cafwyd 30 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr bwysigrwydd dŵr a dyfrffyrdd i'r economi ac yn y diwydiant twristiaeth yn benodol.

**Pwyntiau a Themâu Allweddol**

- Nododd nifer o ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru annog pobl i wneud defnydd helaethach o adnoddau dŵr ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden am resymau iechyd a lles yn ogystal â rhesymau economaidd.

- Pwysleisiodd sawl ymatebydd bwysigrwydd sicrhau bod cyrff dŵr yng Nghymru wedi'u diogelu'n ddigonol ac yn cael eu rheoli'n gynaliadwy er mwyn sicrhau y ceir y budd economaidd mwyaf ohonynt.

- Cyfeiriodd dau ymatebydd at y cyfraniad y gallai cynlluniau trydan dŵr ei wneud o ran twf gwyrdd. Nododd un y dylid trin y prosesau tynnu dŵr hyn yn wahanol, am fod 100% o'r dŵr yn cael ei ddychwelyd.

- Nododd dau ymatebydd fod angen cefnogi twf parhaus mewn rhannau o Gymru, lle mae adnoddau dŵr eisoes dan bwysau, drwy storio mwy o ddŵr, er enghraifft drwy gynaeafu dŵr glaw yn strategol. Awgrymwyd y gellid rhoi mwy o gymorth i ddatblygu prosiectau. Awgrymodd ymatebydd arall y dylid gwneud mwy o ddefnydd o ddŵr llwyd.

- Nododd un ymatebydd y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i weithgarwch masnachu mewn dŵr trawsffiniol a rhwng cwmnïau o gofio'r rôl y mae Cymru yn ei chwarae o ran darparu dŵr i Loegr a'r manteision sy'n deillio o hynny o ran cydnerthedd rhyngysylltiad a throsglwyddiadau dŵr.

- Soniodd ymatebydd arall am y manteision y gellid eu sicrhau o gyflwyno cystadleuaeth i'r farchnad ddŵr.

  *“Albion believes that it is essential to consider, or at least reference, the potential benefits that competition can deliver, whether through existing ‘inset’ processes (e.g. Albion Water or Scottish and Southern) or following the retail market opening in 2017.”*

  \- *Albion Water*

- Tynnodd un ymatebydd sylw at broblemau y gallai rhai diwydiannau eu hwynebu pe baent yn dod yn rhan o'r system trwyddedu tynnu dŵr.

- Awgrymodd un ymatebydd y byddai dealltwriaeth gliriach o werth economaidd dŵr yn helpu i wella effeithlonrwydd dŵr a chynhyrchiant.

- Roedd un ymatebydd o'r farn y gallai cynlluniau TWE yng Nghymru gynnig cyfle i greu sector arloesol newydd yng Nghymru.

***Dadansoddiad o'r Adran***

*Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'n ffocws yn yr adran hon. Ystyriwyd bod ymgysylltu â'r gymuned yn allweddol i gyflawni ein dull gweithredu newydd, yn ogystal â chynnwys sefydliadau yn y trydydd sector. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod angen rhoi mwy o bwyslais ar gyflawni yn erbyn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a fydd yn sicrhau manteision lluosog, ehangach.*

### 2.3 Cynigion: Adran 2 – Gweithredu i Leihau Llygredd

Roedd yr adran hon yn nodi ein cynigion i fynd i'r afael â llygredd drwy sicrhau bod rheolwyr tir a busnes a phob un ohonom fel unigolion yn mabwysiadu arferion a gweithdrefnau da.

**Cwestiwn 6:**
**Ydych chi'n cytuno â'n ffocws ar lygredd gwasgaredig? Os nad ydych, esboniwch pam.**

Cawsom 31 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda 22 o ymatebion yn cytuno, ar y cyfan, â'r cynigion.

Roedd saith ymateb yn niwtral o ran eu sylwadau cyffredinol ac roedd dau sefydliad yn gwrthwynebu'r cynigion, ar y cyfan, am eu bod o'r farn nad oeddent yn ymdrin â'r mater yn ddigonol. Ceir dadansoddiad o'r ymatebion fesul sector isod:

| **Tabl 2: Dadansoddiad o'r ymatebwyr i Gwestiwn 6** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Sector** | **Nifer** | **Cytuno ar y cyfan â dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â llygredd gwasgaredig** | **Niwtral neu Ansicr** | **Anghytuno ar y cyfan â dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â llygredd gwasgaredig** |
| Unigolion Preifat a Busnesau | 1 | 1 | | |
| Cyrff a Chymdeithasau Proffesiynol | 9 | 6 | 3 | |
| Sefydliadau Cadwraeth/Amgylcheddol | 4 | 2 | | 2 |
| Y Diwydiant Dŵr | 5 | 5 | | |
| Cyrff Iechyd a Diogelwch Cyhoeddus | 5 | 4 | 1 | |
| Asiantaeth y Llywodraeth | 1 | 1 | | |
| Cyrff Defnyddwyr | 1 | 1 | | |
| Awdurdodau Lleol | 1 | 1 | | |
| Arall | 4 | 2 | 2 | |
| **Cyfansymiau** | **31** | **23** | **6** | **2** |

### Pwyntiau a Themâu Allweddol

- Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gadarnhaol iawn gan nodi, wrth gymryd camau i leihau llygredd, y dylem ganolbwyntio ar fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig. Hefyd, manteisiodd ymatebwyr ar y cyfle, wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, i nodi ffynonellau eraill sy'n cyfrannu at lygredd amgylcheddol.

*'Given the greater control of point source discharges, diffuse pollution is now a major emerging issue resulting in numerous Water Framework Directive water body failures and impacts on protected sites in both terrestrial and marine environments.'*

- *Cyfoeth Naturiol Cymru*

- Nododd nifer o ymatebion fod angen rhoi mwy o sylw i erydiad pridd a dŵr ffo y nodwyd eu bod yn cyfrannu at fethiannau i gyflawni yn erbyn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r risg bosibl o lifogydd.

- Galwodd sawl ymateb am roi mwy o sylw i lygredd diwydiannol a threfol yn ogystal ag annog mwy o ddefnydd o systemau draenio cynaliadwy, yn arbennig ar gyfer datblygiadau newydd.

- Amlygodd dau ymateb fod angen creu cyswllt rhwng targedau'r Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol er mwyn lleihau ewtroffigedd a achosir gan bobl a mesurau ar dir.

- Codwyd pryderon ynghylch pwysigrwydd sicrhau nad yw'r costau sy'n gysylltiedig â delio â chanlyniadau llygredd gwasgaredig yn disgyn yn anghymesur ar gwsmeriaid dŵr.

*'Water customers currently bear a disproportionate share of the costs of dealing with the results of diffuse pollution on the water environment'.*

- *Cyngor Defnyddwyr Cymru*

- Gofynnodd sawl ymateb am i ni sicrhau na châi'r diwydiant ffermio ei drin yn wahanol wrth fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig ac am i ystyriaeth lawnach gael ei rhoi i sectorau eraill sy'n cyfrannu at y broblem.

- Codwyd materion yn ymwneud â diogelwch bwyd gan rai ymatebwyr mewn perthynas â'r rôl bwysig y mae amaethyddiaeth yn ei chwarae yn yr economi wledig. Gyda phoblogaeth gynyddol sy'n ymwybodol o ddiogelwch bwyd a milltiroedd bwyd, mae'n bwysig nad yw'r sector yn cael ei roi o dan anfantais i gymaint graddau nes ei fod yn colli cynhyrchiant.

- Hefyd, manteisiodd rhai ymatebwyr ar y cyfle, wrth ateb y cwestiwn hwn, i alw am ymgysylltu'n llawnach â'r cyhoedd a sicrhau bod

gwybodaeth ar gael yn ehangach er mwyn i ni allu mynd i'r afael â phroblemau llygredd gwasgaredig yn effeithiol.

**Cwestiwn 7:**
**A oes unrhyw broblemau llygredd ychwanegol y credwch y dylem eu nodi? Os felly, pa gamau gweithredu ydych chi'n credu sydd eu hangen?**

Cawsom 26 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn broblemau eraill sy'n gysylltiedig â llygredd y gwnaethant awgrymu y dylid mynd i'r afael â hwy ar y cyd â llygredd gwasgaredig.

**Pwyntiau a Themâu Allweddol**

- Y prif feysydd o ran problemau ychwanegol a nodwyd oedd cemegion a phlaladdwyr, erydiad pridd a rheoli carthion, gyda phwyslais arbennig ar systemau nad ydynt yn brif systemau carthffosiaeth.

> *'We believe that as diffuse pollution from ALL sources continues to be a significant factor for meeting the Water Framework Directive (WFD) standards, it should continue to be the priority area for action.' The promotion of good practise and encouraging prompt action to deal with point source pollution incidents should also be included as part of the strategy*.'
>
> \- *Undeb Amaethwyr Cymru*

- Pwysleisiodd ymatebion hefyd bwysigrwydd sicrhau ein bod yn annog gweithio mewn partneriaeth ar draws pob sector sy'n cyfrannu at broblemau llygredd, er mwyn i ni fynd i'r afael â'r problemau hyn yn effeithiol.

- Cododd un ymateb y pwynt, yn seiliedig ar yr asesiadau a gynhaliwyd gan CNC i weld a oedd cyrff dŵr a gwmpesir gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn methu â chyrraedd y safonau gofynnol (Ionawr 2013), yr ymddengys ei bod yn bosibl bod hyd at ddau o bob tri chorff dŵr yn methu â'u cyrraedd, am resymau heblaw llygredd gwasgaredig. Nododd fod mesurau gorfodi yn hanfodol i wrthbwyso llygredd gwasgaredig a mathau eraill o lygredd.

- Cododd un ymateb y pwynt y gall y defnydd o lyswenwynau a phlaladdwyr, er na chyfeirir ato'n benodol yn y strategaeth, os nad ymdrinnir ag ef yn effeithiol yn y dalgylch, olygu costau ychwanegol i gwsmeriaid dŵr. Mae angen defnyddio prosesau trin dŵr uwch er

mwyn lliniaru'r effeithiau. Awgrymwyd bod yn rhaid gorfodi rheoliadau presennol i ddelio â hyn yn llymach. Gallai mabwysiadu dull taliadau am wasanaethau amgylcheddol (PES) neu sefydlu ardaloedd dim chwistrellu neu gyfnewid cynhyrchion hefyd fod yn ffyrdd amgen o ddelio â'r mater.

- Rhai materion sy'n dod i'r amlwg y nodwyd bod angen ymchwilio iddynt yn y dyfodol oedd cemegion a chynhyrchion fferyllol sy'n ymyrryd ag endocrin yn y cyflenwad dŵr.

- Nododd nifer o ymatebwyr fod mwyngloddiau yn cyfrannu'n sylweddol at broblemau llygredd. Roedd y rhain yn cynnwys pyllau glo a mwyngloddiau nad oeddent yn byllau glo ac yn arbennig fwyngloddiau metel y nodwyd eu bod yn her fawr mewn rhai dalgylchoedd. Ymhlith yr enghreifftiau o ardaloedd penodol y mae angen rhoi sylw iddynt roedd Dalgylch rhannau isaf Dyffryn Hafren, afon Taf ac afon Tawe.

- Nododd cryn nifer o ymatebwyr fod gweithgarwch rheoli carthion ac yn arbennig y cynnydd yn nifer y gweithfeydd trin carthion preifat bach a charthbyllau a thanciau carthion nad ydynt yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda yn cael cryn effaith ar yr amgylchedd.

- Awgrymodd un ymatebydd y byddai newid deddfwriaethol a fyddai'n rhoi pwerau galluogi i ymgymerwyr carthffosiaeth (yn debyg i'r rhai a roddir i awdurdodau lleol) i fynd i'r afael â chysylltiadau anghyfreithlon yn helpu i leihau'r effaith ar yr amgylchedd.

- Awgrymwyd hefyd y dylai cwmnïau dŵr osod dyfais monitro hyd digwyddiad (EDM) ar bob gollyngiad ysbeidiol a allai effeithio ar bysgodfeydd cregyn a chroesawyd y buddsoddiad a wnaed yn ddiweddar mewn perthynas â hyn. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i nodi asedau sy'n perfformio'n wael ac yn llywio arfarniadau o fuddsoddiad yn well.

- Cododd CNC bryderon ynghylch ansawdd y gwaith a wneir i osod systemau trin carthion preifat a'u cynnal a'u cadw a all beri risg y caiff cyflenwadau dŵr yfed a chyrsiau dŵr gerllaw eu halogi. Awgrymwyd y dylid ymgysylltu â'r diwydiant sy'n gosod y systemau hyn ac yn eu cynnal a'u cadw er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â'r safonau ansawdd a nodwyd.

- Galwyd am fynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â gorlifoedd dŵr storm a phroblemau sy'n gysylltiedig â methiant rhwydweithiau y mae angen mynd i'r afael â hwy o hyd.

- Nodwyd bod angen ystyried rhai arferion rheoli coedwigoedd yn fanylach wrth fynd i'r afael â phroblemau llygredd a chyfeiriwyd yn benodol at asideiddio. Wrth geisio mynd i'r afael â'r problemau hyn mae CNC wedi defnyddio'r ddogfen "Practice guide on managing forestry in acidified catchments" yn ei weithrediadau ei hun a thrwy ei rôl reoleiddio gyda gweithredwyr coedwigoedd.

- Galwyd am i'r Strategaeth roi blaenoriaeth i adfer ardaloedd lle y gellid storio dŵr, megis gorgors ucheldiroedd, gan gynnwys planhigfeydd o goed masnachol, a gofalu amdanynt.

- Cododd un ymateb bryderon bod ffracio yn peri risg i ansawdd dŵr.

- At hynny, galwodd sawl ymateb am fwy o bwyslais ar weithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni cydamcanion a chydnabod gwerth sectorau gwahanol yn cydweithio i fynd i'r afael â phroblemau llygredd.

**Cwestiwn 8:**
**Ydych chi'n cytuno â chwmpas y gweithgareddau ar gyfer y Rheolau Rhwymol Cyffredinol, fel y'u nodir?**

Cawsom 31 o ymatebion i'r cwestiwn hwn yr oedd y rhan fwyaf ohonynt o blaid y cynnig ar y cyfan; rhoddodd saith atebion a fynegodd ansicrwydd neu lle na fynegwyd unrhyw farn ac roedd pedwar yn amlwg yn gwrthwynebu'r cynnig fel y'i nodwyd yn y ddogfen ymgynghori. Mae Tabl 3 isod yn dadansoddi'r rhain fesul sector:

**Tabl 3: Dadansoddiad o'r ymatebwyr i Gwestiwn 8**

| Sector | Nifer | Cytuno ar y cyfan â'r cwmpas a nodwyd | Niwtral neu ansicr | Anghytuno ar y cyfan â'r cwmpas a nodwyd |
|---|---|---|---|---|
| Unigolion Preifat a Busnesau | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Cyrff a Chymdeithasau Proffesiynol | 8 | 5 | 1 | 2 |
| Sefydliadau Cadwraeth/Amgylcheddol | 6 | 4 | 2 | 0 |
| Y Diwydiant Dŵr | 5 | 4 | 1 | 0 |
| Cyrff Iechyd a Diogelwch Cyhoeddus | 4 | 2 | 2 | 0 |
| Asiantaeth y Llywodraeth | 2 | 2 | 0 | 0 |
| Cyrff Defnyddwyr | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Awdurdodau Lleol | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Arall | 4 | 2 | 1 | 1 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfansymiau | 31 | 20 | 7 | 4 |

**Pwyntiau a Themâu Allweddol**

- Awgrymodd un ymatebydd y dylid defnyddio'r Cod Arfer Amaethyddol Da a'r rheolau Trawsgydymffurfio yn sail i Reolau Rhwymol Cyffredinol ym maes rheoli daliadau tir.

- Rhybuddiodd dau ymatebydd y gallai Rheolau Rhwymol Cyffredinol ganolbwyntio ar broses yn hytrach na chanlyniadau a'u bod yn dibynnu ar hunangofnodi.

- Pwysleisiodd sawl ymatebydd fod angen rhoi trefniadau monitro a gorfodi priodol ar waith er mwyn i Reolau Rhwymol Cyffredinol fod yn effeithiol.

- Holodd ymatebydd a allai maint cymharol fach rhai sectorau a reoleiddir yng Nghymru olygu y byddai llai o fanteision yn deillio o ddefnyddio Rheolau Rhwymol Cyffredinol a nododd fod angen eglurhad ynghylch a fyddai CNC yn gosod cosbau sifil, yn hytrach na chosbau troseddol, fel rhan o'r broses orfodi.

- Pwysleisiodd tri ymatebydd fod angen canllawiau clir a chynhwysfawr fel rhan bwysig o unrhyw ddull o fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig.

- Cyfeiriodd sawl ymatebydd at yr angen i ddysgu gwersi o'r gwaith a wnaed i weithredu rheolau o'r fath yn yr Alban.

- Cyfeiriodd dau ymatebydd at y ffaith nad oes unrhyw degwch ar hyn o bryd o ran pwy sy'n talu am liniaru effeithiau llygredd gwasgaredig:

  *'…the need to encourage and enforce the responsibilities of other sectors such as agriculture to address water pollution is paramount as this can and does bear directly on water quality issues further downstream. As a consequence, water consumers pay a share of the cost of dealing with the results of diffuse pollution which is not equitable'*

  *- Cyngor Sir Penfro*

- Fel sector, roedd ffermwyr a thirfeddianwyr yn gytûn o ran eu gwrthwynebiad i'r cynnig.

  *'Any farmer who claims single farm payment under the CAP is subject to cross compliance requirements … Non-compliance results in penalties being laid against the farmer and… the introduction of General Binding Rules could result in farmers facing double jeopardy'*

  *- Undeb Amaethwyr Cymru*

**Cwestiwn 9:**
**Ydych chi'n cytuno mai cosbau ariannol amrywiadwy yw'r ffordd orau i Cyfoeth Naturiol Cymru orfodi'r rheolau rhwymol cyffredinol?**

Cawsom 28 o ymatebion i'r cwestiwn hwn gyda 17 ohonynt o blaid defnyddio cosbau ariannol amrywiadwy ar y cyfan, tra rhoddodd saith atebion a fynegodd ansicrwydd neu lle na fynegwyd unrhyw farn. O'r pedwar ymatebydd arall a nododd nad oeddent o blaid defnyddio cosbau, roedd tri hefyd wedi nodi eu bod yn gwrthwynebu cyflwyno Rheolau Rhwymol Cyffredinol yn eu hymatebion i gwestiwn 8. Mae Tabl 4 isod yn dadansoddi'r rhain fesul sector:

| | **Tabl 4: Dadansoddiad o'r ymatebwyr i Gwestiwn 9** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Sector** | **Nifer** | **Cytuno ar y cyfan â'r cynnig i ddefnyddio cosbau ariannol amrywiadwy fel dull gorfodi** | **Dim sylw / ddim yn gwybod / niwtral** | **Anghytuno ar y cyfan â'r cynnig i ddefnyddio cosbau ariannol amrywiadwy fel dull gorfodi** |
| Unigolion Preifat a Busnesau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyrff a Chymdeithasau Proffesiynol | 9 | 2 | 4 | 3 |
| Sefydliadau Cadwraeth/Amgylcheddol | 7 | 6 | 1 | 0 |
| Y Diwydiant Dŵr | 5 | 4 | 1 | 0 |
| Cyrff Iechyd a Diogelwch Cyhoeddus | 2 | 2 | 0 | 0 |
| Asiantaeth y Llywodraeth | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Cyrff Defnyddwyr | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Awdurdodau Lleol | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Arall | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Cyfansymiau | 28 | 17 | 7 | 4 |

### Pwyntiau a Themâu Allweddol

- Pwysleisiodd saith o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig i ddefnyddio cosbau ariannol amrywiadwy fod angen sicrhau bod cosbau yn gymesur â'r difrod a achoswyd gan y drosedd benodol a'r costau sy'n gysylltiedig ag atgyweirio'r difrod hwnnw.

- Nododd tri ymatebydd fod angen mwy o fanylion am sut y byddai cosbau yn gweithio a gofynnodd un hefyd sut y câi pwerau gorfodi presennol CNC eu cymhwyso at Reolau Rhwymol Cyffredinol.

- Nododd pedwar ymatebydd eu bod yn gwrthwynebu'r cosbau, gyda thri ohonynt yn cynrychioli ffermwyr a thirfeddianwyr, a chyflwynodd dau ymatebydd gynigion amgen tebyg i ddull yn seiliedig ar gosbau:

  *'…in terms of the development industry we would rather see NRW provide guidance to developers to educate them on the problems associated with diffuse pollution and to work with developers on bringing schemes forward'*
  *- Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cyfyngedig*

- Amododd tri o'r rhai a oedd o blaid defnyddio cosbau i orfodi Rheolau Rhwymol Cyffredinol y gefnogaeth hon drwy gyflwyno sylwadau ar sut y dylid sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio cyn lleied â phosibl:

  *'…an enforcement strategy should always consider whether the provision of advice, rather than formal enforcement, is appropriate as a response to an isolated or first breach of general binding rules.'*

  *- Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd*

- Er nad oedd o blaid defnyddio cosbau i orfodi Rheolau Rhwymol Cyffredinol ar eu pen eu hunain, roedd un ymatebydd yn agored i gyfuniad o gymhellion a chosbau.

- Ar y llaw arall, awgrymodd ymateb arall fesurau llymach yn hytrach na'r cosbau arfaethedig.

- Mynegodd dau ymatebydd farn ar sut y dylid defnyddio'r arian a godir drwy gosbau, yn benodol i ymdrin â'r niwed a achoswyd gan y drosedd:

  *'Remedies …should include requiring necessary remedial work to be taken … {and/or}…the National Assembly should seek the power to commission works and reclaim the cost.'*

  *- Sefydliad Tirlunio Cymru*

***Dadansoddiad o'r Adran***

*Roedd cefnogaeth eang i'n ffocws yn yr adran hon ymysg ymatebwyr. Ystyriwyd bod y pwerau deddfwriaethol presennol, mewn rhai achosion, yn briodol ond bod angen eu gorfodi'n gywir.*

### 2.4 Cynigion: Adran 3 – Gwella'r ffordd yr ydym yn cynllunio a rheoli ein gwasanaethau dŵr

Mae'r adran hon yn nodi ein cynigion ar gyfer sicrhau cyflenwadau dŵr diogel a chadarn a chyflwyno cynlluniau ar gyfer rheoli dŵr gwastraff a charthion yn yr hirdymor. Mae hefyd yn nodi opsiynau ar gyfer hyrwyddo'r defnydd effeithlon o ddŵr gan fusnesau a defnyddwyr preswyl.

**Cwestiwn 10:**
**Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor o alinio'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a'r Cynllun Sychder gyda'r Cylch Cynllunio Rheoli Asedau?**

O'r 25 a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd pob un o blaid y cynnig hwn ac roeddent o'r farn y gallai manteision sylweddol ddeillio o alinio'r cylchoedd cynllunio, o ran sicrhau gwell gwaith cynllunio, yn ogystal ag arbedion effeithlonrwydd ar gyfer rheoleiddwyr a chwmnïau dŵr.

**Pwyntiau a Themâu Allweddol**

- Yn ogystal ag ymateb ffafriol, tynnodd dau ymatebydd sylw at natur wirfoddol y cynlluniau rheoli dŵr gwastraff a charthion arfaethedig am nad oedd unrhyw bwerau cyfreithiol ffurfiol ar gael i Lywodraeth Cymru.

- Nododd rhai ymatebwyr y dylai gwaith cynllunio gael ei wneud ar sail ardal neu ddalgylch.

- Roedd un ymatebydd am weld y cylch cynllunio yn cael ei alinio â Chynlluniau Rheoli Basnau Afonydd hefyd.

- Nododd un ymatebydd y dylai fod cysondeb rhwng y dulliau gweithredu a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr.

- Roedd gan un ymatebydd amheuon ynglŷn â chyfuno cynlluniau i greu un cynllun a nododd y gallai cyfuno cynlluniau arwain at waith cynllunio o safon is.

**Cwestiwn 11:**
**Ydych chi'n cytuno bod angen gwella ein cynlluniau ar gyfer rheoli dŵr gwastraff a charthffosiaeth yn yr hirdymor?**

O'r 29 a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 27 yn cytuno bod angen gwella cynlluniau ar gyfer rheoli dŵr gwastraff a charthion yn yr hirdymor. Roedd y ddau ymateb arall yn niwtral.

**Pwyntiau a Themâu Allweddol**

- Ymddangosodd sawl thema yn yr ymatebion o ran pam roedd angen dull cynllunio hirdymor, gan gynnwys:

- Cysylltiadau rhwng llygredd gwasgaredig a hen systemau carthffosiaeth, sydd mewn cyflwr gwael, neu seilwaith annigonol mewn ardaloedd gwledig (tanciau carthion / carthbyllau ac ati)
  - Darpariaeth carthffosiaeth yn rhwystro gwaith cynllunio a datblygu
  - Newid yn yr hinsawdd a llifogydd cysylltiedig
  - Gallu'r seilwaith presennol i ymdopi dros y tymor hwy a phryd y bydd angen ei adnewyddu.

- Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y byddai dull cynllunio hirdymor yn darparu ar gyfer gwneud mwy o waith cynnal a chadw, gan leihau'r angen am waith adweithiol.

- Awgrymodd sawl ymatebydd y gallai mwy o waith cynllunio ar gyfer rheoli dŵr gwastraff a charthion annog mwy o ddefnydd o Gynlluniau Draenio Cynaliadwy.

- Yn ogystal â derbyn bod angen dull cynllunio hirdymor, awgrymodd un ymatebydd y gallai fod yn werth newid i systemau sy'n trin dŵr llwyd a charthion ar wahân hefyd.

- Gofynnodd un ymatebydd am eglurhad pellach, gan fynegi pryder y gall gwaith cynllunio yn y maes hwn ddyblygu'r hyn sydd eisoes yn cael ei wneud gan ymgymerwyr carthffosiaeth.

**Cwestiwn 12:**
**Sut y gallwn ni sicrhau bod cynlluniau Cwmnïau Dŵr yn cysylltu â chynlluniau rheoli adnoddau naturiol ehangach? Beth yw eich barn ar sut y dylid cyflwyno hyn?**

Cawsom 24 o ymatebion i'r cwestiwn hwn a fynegodd amrywiaeth eang o safbwyntiau ynglŷn â sut i sicrhau dull mwy cydgysylltiedig o gynllunio gweithgarwch rheoli dŵr ac adnoddau naturiol yn yr hirdymor.

**Pwyntiau a Themâu Allweddol**

- Daeth pedair thema allweddol i'r amlwg yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn:

  - **Amseru** – ystyrir ei bod yn fwyfwy pwysig bod cylchoedd cynllunio cwmnïau dŵr yn alinio â chylchoedd cynllunio gwaith rheoli basnau afonydd fel y gallant fwydo i mewn i'w gilydd. Byddai hyn hefyd yn ei gwneud yn bosibl i gytuno ar flaenoriaethau buddsoddi, tybiaethau cynllunio a thargedau cyflawn cyson.
  - **Ymgysylltu** – mae angen i gwmnïau dŵr ymgysylltu â phob rhanddeiliad allweddol yn gynnar yn y broses gynllunio ac ystyried polisi cynllunio cysylltiedig.
  - **Cydweithio** – mae angen cydnabod rolau mewn perthynas â materion rheoli tir a dŵr yn well, a all arwain wedyn at

gydweithio gwell o ran gwaith cynllunio a chyflawni ymarferol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
  - **Rôl y Llywodraeth** – mae angen i ganllawiau'r Llywodraeth gyfeirio cwmnïau at bolisi amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach. Ystyried deddfu i osod dyletswydd ar gwmnïau cyfleustodau i ystyried cynlluniau rheoli adnoddau naturiol.

**Cwestiwn 13:**
**Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i annog defnydd mwy effeithlon o ddŵr? A oes yna unrhyw gamau gweithredu pellach y gallwn eu cymryd?**

O'r 28 o ymatebion a gawsom, roedd 24 yn cytuno â'r cynigion a nodir yn y Strategaeth ddrafft.

**Themâu a Phwyntiau Allweddol**

- Fel gyda'r cwestiwn blaenorol, cododd sawl thema allweddol o'r sylwadau:

  - Addysg/codi ymwybyddiaeth ynghylch faint o ddŵr sydd ar gael yng Nghymru mewn gwirionedd. Nododd sawl ymatebydd fod canfyddiad cyhoeddus i'r perwyl "ei bod yn bwrw llawer o law yng Nghymru, felly mae'n rhaid bod gennym lawer o ddŵr".
  - Mae angen i effeithlonrwydd dŵr ddechrau gyda chynllunio, p'un a yw'n ymwneud â gweithgynhyrchwyr cynhyrchion sy'n defnyddio dŵr a gweithio o fewn y gadwyn gyflenwi i leihau'r defnydd o ddŵr a sicrhau bod y cynhyrchion hyn yn fwy effeithlon; neu weithio gyda chynllunwyr a datblygwyr tai i gynllunio technoleg effeithlonrwydd dŵr ac ailddefnyddio dŵr i'w cynnwys mewn adeiladau newydd.
  - Mae angen cydnabod nad problem sy'n gysylltiedig â 'deiliaid tai' yn unig mo hon. Mae angen targedu defnyddwyr dŵr nad ydynt yn gartrefi, yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus, hefyd.
  - Dylai Llywodraeth Cymru ystyried nodi polisi cyffredinol er mwyn helpu i arbed dŵr yn gyson ac yn syml drwy waith sefydliadau gwahanol, yn annibynnol ac ar y cyd.
  - Mae angen adfer gallu'r tirweddau i storio dŵr a sicrhau manteision eraill, megis trydan dŵr, a/neu wneud gwell defnydd o'r gallu hwnnw.

- Roedd un ymatebydd am weld Llywodraeth Cymru yn creu systemau sy'n darparu cymhellion i ddefnyddio glaw a dŵr llwyd.

- Roedd un ymatebydd yn pryderu ynghylch effaith targedau y pen ar gyfer y defnydd o ddŵr pe baent yn cael eu cymhwyso at gartrefi unigol, yn arbennig y rhai y mae angen iddynt ddefnyddio mwy o ddŵr o ganlyniad i gyflyrau iechyd cronig, yn enwedig y rhai nad ydynt yn gymwys i gael tariffau cymdeithasol.

**Cwestiwn 14:**
**Ydych chi'n cytuno â'n hymagwedd ar gyfer mesuryddion? Pa ffactorau eraill y dylem eu hystyried?**

Y cwestiwn hwn a ddenodd yr ymateb mwyaf cymysg yn yr adran hon. O'r 28 o ymatebion, roedd 16 yn gadarnhaol tuag at y dull gweithredu a nodir ar y cyfan, er bod bron bob un ohonynt yn cynnwys cafeatau neu rybuddion. Roedd tri yn gwrthwynebu'r dull gweithredu arfaethedig a'r ffordd orau o ddisgrifio'r naw ymateb sy'n weddill yw niwtral.

| | **Tabl 5: Dadansoddiad o'r ymatebwyr i Gwestiwn 14** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Sector** | **Nifer** | **Cytuno ar y cyfan â'n hymagwedd ar gyfer mesuryddion** | **Niwtral** | **Anghytuno ar y cyfan â'n hymagwedd ar gyfer mesuryddion** |
| Unigolion Preifat a Busnesau | 2 | | 2 | |
| Cyrff a Chymdeithasau Proffesiynol | 6 | 3 | 3 | |
| Sefydliadau Cadwraeth/Amgylcheddol | 4 | 4 | | |
| Y Diwydiant Dŵr | 5 | 1 | 2 | 2 |
| Cyrff Iechyd a Diogelwch Cyhoeddus | 1 | | | 1 |
| Asiantaeth y Llywodraeth | 2 | 2 | | |
| Cyrff Defnyddwyr | 2 | 1 | 1 | |
| Awdurdodau Lleol | 1 | 1 | | |
| Arall | 5 | 4 | 1 | |
| **Cyfansymiau** | **28** | **16** | **9** | **3** |

## Mesuryddion

- Er bod llawer o ymatebwyr yn cytuno mai mesuryddion, yn y rhan fwyaf o achosion, yw'r ffordd decaf o godi tâl am ddŵr, prin iawn oedd y rhai a ystyriai fod rhoi mesurydd i bawb yn opsiwn derbyniol.

*'…water is essential to health and to wellbeing and that anything that discourages its use where necessary for health and public health will be strongly opposed.'*

- *Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, Cymru*

- Nododd sawl ymatebydd y gellir ystyried weithiau fod cyflwyno mesuryddion yn gosod baich ychwanegol ar gartrefi nad oes ganddynt fesuryddion. Er y gall arwain at ddull mwy ymwybodol o ddefnyddio dŵr a sicrhau arbedion effeithlonrwydd, mae angen cydbwyso hyn â'r

goblygiadau ariannol i fusnesau a'r cartrefi tlotaf. Nodwyd hefyd ei bod yn bwysig ystyried y goblygiadau ariannol i gwmnïau dŵr yn llawn wrth ddatblygu unrhyw ddull gweithredu newydd.

- Byddai mesuryddion yn rhoi'r rhai sy'n dioddef o gyflyrau meddygol sy'n golygu bod rhaid defnyddio mwy o ddŵr na'r cyfartaledd o dan anfantais, yn enwedig y rhai nad ydynt yn bodloni meini prawf 'Water Sure'.

  '*any metering programme would need to be developed alongside the social tariffs work currently being undertaken by water companies, and take account of water poverty issues at a local area level'.*

  \- *Parciau Cenedlaethol Cymru*

- Mae angen ystyried lleoliad y mesurydd. Awgrymodd un ymatebydd mai drwy osod mesuryddion y tu allan ar linell yr eiddo y gellid sicrhau'r gostyngiadau mwyaf mewn gollyngiadau a'r defnydd o ddŵr a bod rhagnodi lleoliad mesuryddion cwsmeriaid yn hanfodol i unrhyw bolisi ar fesuryddion y bwriedir iddo leihau'r defnydd o ddŵr.

- Mae angen i gwmnïau dŵr sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau o ran cofnodi darlleniadau mesuryddion ac ymdrin â materion cynnal a chadw ac atgyweirio.

- Roedd un ymatebydd o'r farn y bydd angen i unrhyw bolisi ar fesuryddion ystyried cyflwyno systemau chwistrellu ar gyfer atal tân mewn pob eiddo domestig newydd o 2016.

- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn ei bod yn bosibl na fydd mesuryddion ar eu pen eu hunain yn llwyddo i leihau'r defnydd o ddŵr. Dylai annog y defnydd o amrywiaeth o dariffau a mesuryddion deallus roi mwy o reolaeth a gwybodaeth i gwsmeriaid.

- Mae'n rhaid i raglen gosod mesuryddion gael ei hategu gan weithgarwch ymgysylltu â deiliaid tai. Bydd hyn yn sicrhau y bydd gwneud defnyddwyr yn ymwybodol o'u defnydd o ddŵr yn eu helpu i newid eu hymddygiad a rheoli eu biliau.

- Mae angen darparu mwy o wybodaeth i fusnesau gwledig a threfol am y materion sy'n ymwneud â chynigion ar gyfer gosod mesuryddion a'u heffeithiau.

**Cwestiwn 15:**
**Ydych chi'n cytuno â'r ymagwedd hon ar gyfer rheoli gollyngiadau? A oes ffyrdd y gallwn sicrhau bod gollyngiadau yn cael eu lleihau mewn ffordd gynaliadwy?**

Cawsom 23 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig.

**Pwyntiau a Themâu Allweddol**

Hefyd, rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr rai awgrymiadau/sylwadau diddorol a defnyddiol ar leihau gollyngiadau yn gynaliadwy.

- Dylai'r strategaeth gydnabod bod gan Lywodraeth Cymru, CNC, DEFRA ac Asiantaeth yr Amgylchedd rôl i'w chwarae o ran rheoleiddio gollyngiadau drwy broses y cynllun rheoli adnoddau dŵr ochr yn ochr ag Ofwat.

- Mae angen cydbwyso'r buddiannau â'r costau er mwyn sicrhau bod biliau dŵr yn parhau i fod yn fforddiadwy i'r rhan fwyaf o bobl a busnesau.

- Mae gollyngiadau yn fater emosiynol i gwsmeriaid dŵr. Mae angen i Lywodraeth Cymru gefnogi'r nod o ragamcanu lleihad yng nghyfanswm y dŵr a gaiff ei ollwng am ei bod yn bwysig i ymdrechu i sicrhau datblygiadau arloesol a gwelliannau. Bydd angen i ragolygon ar gyfer lleihau gollyngiadau yn y dyfodol gael eu hategu gan arfarniad 'cymdeithasol' ac 'economaidd' cadarn. Er mwyn gwneud hyn, efallai y bydd angen i'r diwydiant dŵr cyfan ddatblygu adnoddau sy'n nodi barn cwsmeriaid fel y gellir ei defnyddio fel elfen o'r broses o bennu targedau ar gyfer gollyngiadau.

- Mae angen cynnal gollyngiadau ar lefel lle mae cost amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol lleihau gollyngiadau yn llai na chost cael dŵr o ffynonellau eraill neu'n cyfateb i'r gost honno.

  *'We would be concerned if water companies were instructed to reduce the level of leakage to below the sustainable economic level since this would be likely to result in significant increases in costs to water customers without any equivalent benefits being delivered. Any future metering strategy for Wales should consider the opportunities for customer side leakage management.'*

  - *Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr*

- Gallai ystyried lleihau gollyngiadau fel mesur cadwraeth dŵr, a phennu targedau priodol ar gyfer dŵr sydd wedi'i gyflenwi (yn hytrach na thargedau ar gyfer arbed dŵr, gollyngiadau ac ati ar wahân) helpu i annog lleihau gollyngiadau ymhellach, neu o leiaf y cymysgedd mwyaf cost-effeithiol o fesurau i leihau'r galw am ddŵr.

- Nododd un ymatebydd nad pibellau cyflenwi dŵr cyhoeddus yn unig sy'n gollwng ac y gall tynwyr dŵr eraill wynebu'r broblem hon hefyd.

***Dadansoddiad o'r Adran***

*Rydym yn falch o weld bod cytundeb cyffredinol bod angen cylchoedd cynllunio sydd wedi'u halinio'n well a chymorth ar gyfer cynllunio gweithgarwch rheoli dŵr gwastraff a charthion yn yr hirdymor. Rhoddodd ymatebwyr nifer o awgrymiadau defnyddiol ynglŷn â chysylltu cynlluniau cwmnïau dŵr â chynlluniau rheoli adnoddau naturiol ehangach a byddwn yn ystyried y syniadau hyn wrth fwrw ymlaen â'r adolygiad o gynlluniau rheoli dŵr.*

*Er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cydnabod mai mesuryddion yw'r ffordd decaf o godi tâl am ddŵr fel arfer, nodwn yr awgrym cryf bod angen ystyried mesurau eraill a byddwn yn canolbwyntio ar fforddiadwyedd dŵr a lleihau'r defnydd o ddŵr.*

## 2.5 Cynigion: Adran 4 - Fforddiadwyedd dŵr a darparu gwasanaethau gwych i gwsmeriaid

Mae'r adran hon yn nodi blaenoriaeth allweddol Llywodraeth Cymru i sicrhau y gall pobl a busnesau gael gafael ar wasanaethau dŵr a charthion fforddiadwy. Yn benodol, rydym yn pryderu ynghylch lefel taliadau dŵr a'r effaith y mae codiadau yn ei chael ar y cwsmeriaid hynny a wasanaethir gan gwmnïau dŵr sydd leiaf tebygol o allu talu.

Mae'n nodi ein cynigion ar fynd i'r afael â dyled yn y diwydiant dŵr a'r ymdrech barhaus i sicrhau bod cwmnïau dŵr yn darparu gwasanaethau ardderchog i'w cwsmeriaid.

**Cwestiwn 16:**
**Sut y gallwn sicrhau bod arfer gorau yn cael ei rannu ar draws y diwydiant dŵr, er mwyn sicrhau bod atebion arloesol, sy'n mynd i'r afael â phroblemau tlodi dŵr, yn cael eu rhannu gydag eraill?**

Cawsom 17 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

**Pwyntiau a Themâu Allweddol**

- Roedd sawl ymatebydd o'r farn bod y diwydiant dŵr eisoes yn gwneud cryn dipyn i rannu arfer gorau ar y mater hwn, a materion eraill, drwy gydweithio â'r diwydiant a rhanddeiliaid megis y Cyngor Defnyddwyr Dŵr.

- Cyfeiriodd nifer o'r ymatebion at Grŵp Cynghori Polisi Defnyddwyr Dŵr y DU a'i is-grŵp, sef y Gweithgor Ymarferwyr Dyledion ac awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru geisio ymgysylltu â'r grwpiau hyn a bwydo i mewn iddynt.

- Awgrymodd ymatebydd arall y byddai ymgysylltu â mentrau Ewropeaidd megis Partneriaeth Arloesedd Ewrop ar gyfer Dŵr (EIPW) yn darparu cysylltiadau da ag arferion presennol ac arferion sy'n datblygu.

**Cwestiwn 17:**
**A ydym ni wedi nodi'r materion a'r camau gweithredu allweddol mewn cysylltiad â fforddiadwyedd dŵr?**

O'r 17 o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd naw ymatebydd o'r farn ein bod wedi nodi'r prif faterion a chamau gweithredu tra awgrymodd wyth arall faterion eraill y gall fod angen eu hystyried. Nodir y materion a nodwyd yn yr adran isod:

**Pwyntiau a Themâu Allweddol**

- Nodwyd bod rhaglen Diwygio Lles Llywodraeth y DU yn debygol o gael effaith negyddol ar ddrwg-ddyledion ac y gall fod angen gwneud rhagor o waith ar y mater hwn.

- Dywedodd un ymatebydd wrthym fod cwsmeriaid wedi dweud dro ar ôl tro, er eu bod yn derbyn bod angen gwella rhwydweithiau dŵr a charthion a bodloni gofynion amgylcheddol, nad ydynt am i hyn arwain at godiadau sydyn mewn biliau. Felly, mae angen buddsoddi yn y diwydiant dŵr yn raddol fel y gall cwsmeriaid werthfawrogi'r hyn y maent yn ei gael am eu harian.

- Awgrymodd nifer o ymatebwyr bod cyfyngiadau ar y dull presennol o ymdrin â thariffau cymdeithasol ac y dylai Llywodraeth Cymru ystyried beth y gellir ei wneud yn ganolog er mwyn cynorthwyo cwsmeriaid incwm isel a chwsmeriaid sy'n agored i niwed yng Nghymru yn uniongyrchol.

*'In implementing its Tackling Poverty agenda Welsh Government is well placed to help further coordinate action by different organisations across Wales and to help raise awareness of the assistance that is available to low income customers.'*

*- Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr*

- Yn benodol ystyriwyd nad yw'r cynlluniau presennol ar gyfer capio biliau dŵr ar gyfer cwsmeriaid â chyflyrau meddygol sy'n golygu bod yn rhaid iddynt ddefnyddio llawer o ddŵr yn addas at y diben. Er enghraifft, ni fydd pensiynwyr nad ydynt yn cael budd-daliadau yn gymwys er y gallant fod ar incwm eithaf isel ac yn wynebu biliau dŵr uchel.

- At hynny, nododd gwaith ymchwil un ymatebydd fod cwsmeriaid hefyd wedi dweud y byddent yn fwy parod i dalu tuag at gost ariannu tariff cymdeithasol drwy filiau dŵr pe bai hyn yn rhan o ddull partneriaeth lle y mae'r llywodraeth a chwmnïau dŵr hefyd yn cyfrannu.

- Codwyd materion fforddiadwyedd ar gyfer y rhai sydd â chyflenwad dŵr a seilwaith trin preifat fel rhywbeth y dylid mynd i'r afael ag ef, yn arbennig lle mae angen buddsoddiad sylweddol i wella'r rhain.

- Gall cwmnïau dŵr fod yn fwy effeithiol drwy gyfuno eu data ar fforddiadwyedd, er mwyn targedu cymorth yn well. Gellid defnyddio data gan yr Adran Gwaith a Phensiynau hefyd.

*'Water affordability is part of a broader issue of poverty, and to achieve better outcomes, a more joined up approach is needed.'*

*- Water UK*

- Mae angen dull mwy cytbwys o ymdrin â thariffau cymdeithasol a defnyddwyr cyffredinol, am nad oes fawr ddim gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp yn aml, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig. Mae angen gwneud mwy o waith ymchwil i'r gwahaniaethau rhwng tlodi trefol a thlodi gwledig nad ydynt wedi'u hystyried, a hynny fel mater o frys. Mae'r costau a'r

safonau byw cyffredinol rhwng y tirweddau hyn yn wahanol ac nid oes un ateb a all ddatrys problemau yn y ddwy ardal. Mae angen mwy o ddata er mwyn mynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud â dŵr mewn ardaloedd gwledig yn effeithiol.

- Nododd un ymatebydd na fydd mynd i'r afael â'r defnydd o ddŵr ar ei ben ei hun yn sicrhau unrhyw arbedion gwirioneddol oni sicrheir gostyngiadau mewn ynni ymgorfforedig a gynhyrchir drwy gynhesu dŵr poeth ar yr un pryd, ac mae angen esbonio hyn yn well i gwsmeriaid wrth nodi manteision mesurau effeithlonrwydd.

- Nododd un ymatebydd fod gweithwyr iechyd proffesiynol megis meddygon teulu a nyrsys weithiau yn codi tâl ar ddefnyddwyr am lofnodi ffurflen gais am Gymorth Dŵr Cymru. Roedd o'r farn bod angen i Lywodraeth Cymru godi ymwybyddiaeth o dariffau cymdeithasol o fewn y sector iechyd fel y gall deiliaid tai sy'n agored i niwed hawlio budd-daliadau yn ddidrafferth heb fynd i gostau ychwanegol.

- Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y dylai cynlluniau talu cwmnïau dŵr ofyn i gwsmeriaid wneud taliadau dros 12 mis yn hytrach na 10 mis, er mwyn lleihau cost dŵr y mis i'r rhai sydd ar incwm isel. Dylai fod yn arfer safonol i gynlluniau talu ymestyn dros 12 mis er mwyn helpu'r rhai sy'n dewis talu gan ddefnyddio'r dull hwn.

  *'High priority needs to be given to helping customers to avoid debt in the first place… It is important that water and sewerage companies use all of the data and intelligence at their disposal to identify customers who are experiencing financial difficulty.'*

  - *Cyngor ar Bopeth Cymru*

- Dywedodd ymatebwyr eraill, yn ogystal ag ystyried tariffau cymdeithasol a drwg-ddyledion, y gallai hyrwyddo pecyn ehangach o fesurau hefyd helpu cwsmeriaid i leihau eu biliau. Gallai hyn gynnwys asesu p'un a ddylid dewis mesurydd, archwiliadau ynni dŵr poeth, archwiliadau effeithlonrwydd dŵr a gwaith ailgyfarparu a chynllunio/cyllidebu taliadau.

**Cwestiwn 18: A oes unrhyw ymagweddau eraill y gallwn eu mabwysiadu er mwyn cefnogi anghenion cwsmeriaid domestig a busnes?**

Rhoddodd 23 o ymatebwyr awgrymiadau ychwanegol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

**Pwyntiau a Themâu Allweddol**

- Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o fanylion am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu llenwi'r sail dystiolaeth er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu ei safbwynt ar gystadleuaeth ac arloesi.

- Awgrymwyd y dylid cyfeirio'n benodol at ymddiriedaeth mewn cwmnïau, boddhad â gwasanaethau a gwerth am arian, yn ogystal â chau'r bwlch rhwng y ddau olaf, yn y strategaeth fel canlyniadau y dylai cwmnïau ymdrechu i'w cyflawni.

- Roedd sawl ymatebydd am weld y cwmnïau dŵr yn canolbwyntio ar ymgysylltu â chwsmeriaid ynglŷn â nifer o faterion sy'n effeithio arnynt; yn arbennig biliau, tariffau ac arbed dŵr.

- Thema arall o fewn ymatebion oedd bod angen darlleniadau mesuryddion a chylchoedd bilio amlach, a allai helpu o bosibl i leihau'r symiau sy'n ddyledus i gwmnïau dŵr, yn arbennig mewn eiddo lle mae trosiant uchel ymhlith tenantiaid. Gall cwsmeriaid busnes hefyd gael budd o wybodaeth amlach a manylach am y defnydd o ddŵr.

- Awgrymwyd hefyd y gallai mesuryddion deallus sy'n rhoi adborth i gwsmeriaid ar eu defnydd o ddŵr, dyweder bob dydd, fod o gymorth mawr i alluogi tariffau cymdeithasol.

- Roedd un ymatebydd am weld gwaith i gwmnïau dŵr ymgysylltu ymhellach ag awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a datblygwyr yn cael ei flaenoriaethu ac aeth ymhellach i awgrymu y gellid defnyddio deddfwriaeth i sicrhau bod hyn yn digwydd.

- Awgrymodd ymatebwyr y gallai fod angen defnyddio cymhellion ar gyfer rhai busnesau a chartrefi sydd ag incwm is er mwyn galluogi'r grwpiau hyn i fabwysiadau dulliau arbed dŵr.

***Dadansoddiad o'r Adran***

*Rydym yn croesawu'r amrywiaeth eang o awgrymiadau gan ymatebwyr ynglŷn â sut i fynd i'r afael â fforddiadwyedd dŵr a pharhau i ddarparu gwasanaethau ardderchog i gwsmeriaid. Rydym yn cydnabod bod angen ystyried fforddiadwyedd dŵr fel rhan o'r amcan ehangach i drechu tlodi a byddwn yn gweithio gyda'r cwmnïau dŵr a rheoleiddwyr i nodi pecyn ehangach o fesurau i fynd i'r afael â'r materion hyn.*

## 4.6 Cynigion: Adran 5 – Diogelu a Gwella Ansawdd Dŵr Yfed

Nododd y chweched adran o gynigion o fewn yr ymgynghoriad ar y strategaeth ddŵr ddull arfaethedig Llywodraeth Cymru o sicrhau dŵr yfed o ansawdd uchel; yn arbennig cynnal safon uchel dŵr yfed cyhoeddus a phreifat er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Dŵr Yfed.

**Cwestiwn 19: A oes unrhyw faterion ychwanegol ynglŷn ag ansawdd dŵr yfed y dylem eu hystyried? Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ymchwilio i drosglwyddo pibellau cyflenwi dŵr i'r cwmnïau dŵr?**

Cawsom 20 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Nododd chwech o'r ymatebion hyn faterion ychwanegol sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr yfed y dylem eu hystyried; roedd 13 o'r ymatebion hyn yn gadarnhaol ar y cyfan am gynigion Llywodraeth Cymru i ymchwilio i'r posibilrwydd o drosglwyddo pibellau cyflenwi dŵr sy'n eiddo preifat i'r cwmnïau dŵr, tra mai niwtral yw'r ffordd orau o ddisgrifio barn y gweddill ar y cynnig.

### Ystyriaethau Ychwanegol

- Nododd un ymatebydd fod problemau llygredd sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr heb ei drin hefyd yn berthnasol i ansawdd dŵr yfed, yn arbennig ffosfforws, plaladdwyr ac organebau dangosol carthion. Awgrymwyd y byddai gwella dulliau rheoli dalgylchoedd yn helpu i wella ansawdd dŵr.

- Tynnodd ymatebydd arall sylw at y goblygiadau difrifol a allai fod i lygredd pe bai'n effeithio ar ffynhonnau dŵr daear, neu gyflenwadau dŵr eraill, a oedd yn ffynonellau pwysig ar gyfer cyflenwadau dŵr yfed.

- Argymhellodd un ymatebydd y dylid asesu'r effaith y mae cyflenwadau dŵr yfed preifat halogedig yn ei chael ar iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

- Awgrymodd ymatebydd arall hefyd fod angen meithrin gwell dealltwriaeth o broblemau sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr mewn cyflenwadau dŵr preifat. Yn benodol sut maent yn effeithio ar arferion rheoli tir gerllaw a sut y gall sicrhau bod arferion priodol yn cael eu dilyn gerllaw'r tarddiad helpu.

- Awgrymodd un ymatebydd y dylid cysoni'r gofynion rheoliadol ar gyfer ffitiadau dŵr ar draws holl safleoedd defnyddwyr, sy'n golygu y bydd angen i ffynonellau preifat o gyflenwad dŵr fodloni gofynion llymach sydd ond yn cael eu mynnu ar gyfer cyflenwadau preifat ar hyn o bryd. Nododd yr ymatebydd, yn ogystal â lleihau'r risg i iechyd, y byddai hyn hefyd yn sicrhau ei bod yn anghyfreithlon gwerthu ffitiadau, yr ystyrid eu bod yn anaddas i'w gosod yn achos y rhan fwyaf o safleoedd (y daw eu dŵr o'r cyflenwad cyhoeddus).

- Er mwyn gwella ansawdd dŵr preifat awgrymodd un ymatebydd y dylid helpu Awdurdodau Lleol i gyflawni eu rôl yn y maes hwn.

**Ymateb i gynigion ar gyfer ymchwilio i'r posibilrwydd o drosglwyddo pibellau cyflenwi dŵr preifat i'r cwmnïau dŵr**

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gadarnhaol am y cynigion i ymchwilio i'r posibilrwydd o drosglwyddo pibellau cyflenwi dŵr preifat i'r cwmnïau dŵr.

> *'The transfer of supply pipes to company ownership will enable companies to undertake efficient targeted service pipe replacement/lining schemes, covering hundreds or thousands of properties at a time.'*
>
> \- *United Utilities*

- Er nad oedd yr un ymatebydd fel petai yn gwbl wrthwynebus i'r posibilrwydd o drosglwyddo pibellau cyflenwi preifat i'r cwmnïau dŵr, mynegodd llawer bryderon ynghylch pwy a fyddai'n talu'r gost a'r ffordd y gallai gwaith cynnal a chadw parhaus effeithio ar filiau pob cwsmer. Yn benodol, mynegwyd pryder ynghylch sut y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar y rhai na fyddent yn cael budd o drosglwyddo pibellau cyflenwi preifat i'r cwmnïau dŵr. Felly, roedd yr angen i ystyried hyn yn fanwl er mwyn sicrhau bod unrhyw gynnig terfynol yn deg ac yn fforddiadwy yn neges gref yn yr ymatebion.

> *'We can see the benefits of the transfer of supply pipes, although we recognise the details of any transfer would have to be got right so that existing customers do not lose out. To that end a fuller assessment needs to be given to costs, risks and benefits of the proposal.'*
>
> \- *Water UK*

- Tynnodd un ymatebydd sylw at y ffaith bod cwmnïau dŵr eisoes yn gallu atgyweirio pibellau cyflenwi cwsmeriaid gyda'u caniatâd ac awgrymodd bod ganddynt gymhellion cryf i wneud hynny eisoes gan gynnwys cyflawni targedau ar gyfer lleihau gollyngiadau ac arbed costau drwy leihau costau dŵr.

- Cawsom un ymateb a gododd fater defnyddio sodr plwm ar systemau plymwaith ac a oedd o blaid unrhyw gamau a gymerir i fynd i'r afael â hyn ac ymateb arall a gyfeiriodd at yr effaith y mae deunyddiau anghywir a'r gwaith o'u gosod yn ei chael ar ansawdd dŵr yfed.

- Roedd un ymatebydd yn anghytuno mai dim ond pibellau allanol a ddylai gael eu trosglwyddo ac awgrymodd y dylid ystyried pibellau mewnol hefyd, am ei fod o'r farn fod y rhan fwyaf o ddŵr gwastraff yn dod o bibellau mewnol sy'n gollwng.

**Cwestiwn 20: A ddylem ni ddatblygu ac ymgynghori ar strategaeth hirdymor i ddiddymu'r risgiau iechyd o ddefnyddio plwm mewn gwaith plymio?**

Cafwyd 17 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda 14 ohonynt yn gadarnhaol ar y cyfan am y cynnig i ddatblygu strategaeth ar gyfer y risgiau iechyd sy'n

gysylltiedig â defnyddio plwm mewn plymwaith ac ymgynghori yn ei chylch. Ceir dadansoddiad o'r ymatebion isod:

**Pwyntiau a Themâu Allweddol**

- Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gadarnhaol iawn am y cynnig y dylid gwneud rhagor o waith i ddileu'r risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â phlwm mewn plymwaith.

  *‘Removal of lead from drinking water systems is the most sustainable means of addressing the risk in the long term.’*

  *- Dŵr Dyffryn Dyfrdwy*

- Pwysleisiodd pedwar ymatebydd yr effeithiau y mae bwyta hyd yn oed lefelau isel o blwm yn eu cael ar iechyd a thynnodd dau sylw at waith ymchwil a all ddangos bod yr effeithiau yn waeth nag a dybiwyd yn flaenorol, gan godi'r posibilrwydd y bydd angen gostwng y trothwyon ar gyfer y lefel bosibl o blwm y caniateir i bobl ei fwyta.

  *‘UK advice on lead is to keep exposure low as reasonably practicable therefore we would support any measures to reduce health risks.’*

  *- Iechyd Cyhoeddus Cymru*

- Codwyd cost cymryd camau pellach i leihau'r risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â phibellau plwm gan rai ymatebwyr, a oedd yn pryderu y byddai mesurau lliniaru pellach yn golygu costau ychwanegol i gwsmeriaid neu berchenogion tai a allai ei chael hi'n anodd talu am blymwaith newydd.

- Awgrymodd un ymatebydd y gallai cost lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â phibellau plwm ar gyfer y cwmnïau dŵr gael ei wrthbwyso drwy leihau cost tynnu ffosfforws o ddŵr yn ystod y broses trin dŵr a charthion.

- Cyfeiriodd sawl ymatebydd at y defnydd a wneir o gyfansoddion ffosffad ar hyn o bryd i dynnu plwm o ddŵr. A chyfeiriwyd yn benodol at y ffaith bod ffosffad y graig yn adnodd byd-eang cyfyngedig ac, felly, y bydd angen mabwysiadu dull gweithredu newydd yn y pen draw.

- Roedd un ymatebydd yn poeni nad oedd digon o ffigurau i nodi maint ac effaith y broblem.

- Codwyd mater defnyddio sodr plwm unwaith eto mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, gyda dau ymatebydd yn cynnig y dylid gwahardd cynhyrchion sy'n cynnwys sodr plwm rhag cael eu gwerthu yng Nghymru.

***Dadansoddiad o'r Adran***

*Codwyd nifer o faterion diddorol a buddiol mewn ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr adran hon. Bydd y sylwadau manwl yn ddefnyddiol i ddarparu gwybodaeth ar gyfer cyflawni'r strategaeth a bydd angen eu hystyried fel rhan o unrhyw waith parhaus y byddwn yn ei wneud i wella ansawdd dŵr yfed.*

### 4.7 Cynigion: Adran 6 - Ymagwedd Newydd ar gyfer Draenio

Ceisiodd yr adran hon o'r ymgynghoriad farn ar gynigion yn ymwneud â gwella cynaliadwyedd ein seilwaith draenio dŵr gwastraff a dŵr wyneb, gyda phwyslais ar ddull mwy integredig o'i reoli.

Canolbwyntiodd y rhan hon o'r ymgynghoriad ar seilwaith draenio adeiledig megis systemau carthffosiaeth a systemau draenio cynaliadwy (SuDS). Cyfeiriodd nifer o'r ymatebion at reoli tir, llygredd gwasgaredig a rheoli'r perygl o lifogydd, gan bwysleisio'r rhyngberthynas rhwng pob un o'r rhain a'r angen am ddull integredig o reoli dŵr.

**Cwestiwn 21: Ydych chi'n cytuno â'n blaenoriaethau ar gyfer materion draenio?**

Cafwyd cefnogaeth eang i'n cynigion ar gyfer seilwaith draenio. Cawsom 27 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, gyda'r rhan fwyaf ohonynt (18) yn ymdrin yn benodol â'r defnydd o systemau draenio cynaliadwy (SuDS).

**Pwyntiau a Themâu Allweddol**

- Yn gyffredinol, pwysleisiodd y sylwadau ar SuDS y manteision lluosog sy'n deillio o'r dull hwn o ddraenio dŵr wyneb ac roeddent o blaid gweithredu'r darpariaethau ynglŷn â SuDS yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

*'We welcome initiatives to simplify current complexities for drainage and sewerage infrastructure'*

*- Iechyd Cyhoeddus Cymru*

- Nododd nifer o ymatebion fod angen datrys y problemau sy'n ymwneud â pherchenogaeth ac ariannu gwaith cynnal a chadw ac roedd sawl un o blaid gwneud defnydd helaeth o'r dull gweithredu hwn i ddargyfeirio dŵr wyneb o garthffosydd sy'n bodoli eisoes (gwaith ailgyfarparu) yn ogystal ag ar gyfer datblygiadau newydd.

*'it is critical for the development industry that the issue around adoption and future maintenance" of SuDS "be clarified, otherwise this could be a further reason for delaying developments whilst the provision of Suds schemes are being negotiated'*

*-Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi*

- Awgrymodd un o'r ymatebion hyn ein bod yn disgwyl gormod gan ddull SuDS ac nad oedd yn "fwledi arian".

- Cyfeiriodd nifer fach o ymatebion at systemau draenio priffyrdd a gwnaethant groesawu'r adolygiad arfaethedig o berchenogaeth draeniau a deddfwriaeth gysylltiedig.

- Roedd ymatebion y diwydiant dŵr ynghylch mater defnyddio mwydwyr yn gymysg, a chafwyd awgrymiadau y dylai unrhyw ddeddfwriaeth ystyried treialon sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd a rhwystrau posibl i reolaethau.

- Croesawodd tri ymateb y canllawiau gwell ar ddarparu cynlluniau carthffosiaeth am y tro cyntaf o dan Adran 101A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

**Cwestiwn 22: Mae'r adran hon wedi canolbwyntio ar y seilwaith adeiledig, sy'n gwasanaethu ardaloedd datblygedig yn bennaf. A ddylem ystyried unrhyw beth arall ar gyfer ardaloedd gwledig?**

Nid oedd unrhyw thema gyffredin yn perthyn i'r 17 o ymatebion a gafwyd. Roedd cefnogaeth i fwy o reolaeth dros garthbyllau, a defnyddio dull SuDS mewn ardaloedd gwledig yn gyffredinol a chyfeiriwyd at ddarparu cynlluniau carthffosiaeth am y tro cyntaf (Adran 101A). Pwysleisiwyd cysylltiadau rhwng rheoli tir, cynnal a chadw systemau draenio, llifogydd a llygredd dŵr mewn sawl ymateb.

Roedd ymatebion eraill i'r cwestiwn hwn yn ymwneud ag asedau amddifad (yn yr achos hwn pwll draenio nad yw wedi'i fabwysiadu eto) a phroblem cysylltiadau anghywir rhwng systemau draenio ar wahân.

> *'Cess pits should be an absolute last resort and if constructed there needs to be a register and a legal requirement to empty, on a regular basis with the LA with the powers to clean and charge if the emptying is not carried out by the owner.'*
> *-Cymdeithas Carthffosiaeth Genedlaethol*

**Cwestiwn 23: A oes unrhyw faterion arwyddocaol eraill y credwn y dylem fod wedi'u cynnwys?**

Cafwyd 12 o ymatebion o sylwedd i'r cwestiwn hwn nad oedd llawer yn gyffredin rhyngddynt.

### Pwyntiau a Themâu Allweddol

- Nodwyd gwaith rheoli carthffosydd a rheolaethau carthffosydd mewn perthynas â rheoli gollwng brasterau, olewau a saim i garthffosydd a chamgysylltiadau.

*'We are aware of the considerable problems caused by the discharge of Fats, Oils and Grease (FOG) to sewers predominantly from hot food shops. Though FOG enters the sewers in liquid form when its temperature falls it sets hard and forms blockages. It also provides a food source for rats. Welsh Government*

*should take steps to require food premises to install a FOG interceptor to trap and remove FOG'*

*- Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd*

- Argymhellwyd y dylid monitro gollyngiadau storm yn well mewn un ymateb a hyrwyddodd buddiannau cadwraeth fanteision adfer ucheldiroedd ar gyfer gwella ansawdd dŵr a lleihau'r perygl o lifogydd a gwlyptiroedd gwneud ar gyfer ymdrin â llygredd amaethyddol - ystyrir yr ymatebion hyn yng nghyd-destun llygredd gwasgaredig yn Adran 4.2.

- Roedd dau ymateb yn cefnogi'r adolygiad arfaethedig o'r trefniadau mabwysiadu gorfodol ar gyfer carthffosydd a Safonau Gweinidogion, gan gynnwys un awgrym i gyflwyno trefniadau cymeradwyo symlach mewn perthynas â'r broses cysylltu carthffosydd.

- Awgrymodd un ymateb y dylai'r strategaeth ymdrin ag effaith systemau draenio ar yr amgylchedd hanesyddol.

- Awgrymodd ymateb arall y dylid targedu cynlluniau carthffosiaeth sy'n cael eu darparu am y tro cyntaf lle yr effeithir ar ansawdd dŵr ymdrochi.

***Dadansoddiad o'r Adran***

*Roedd yr ymatebion i'r rhan hon o'r ymgynghoriad yn gefnogol ar y cyfan i'n dull newydd arfaethedig o ymdrin â systemau draenio ac ni wnaethant godi unrhyw faterion annisgwyl. Bydd y sylwadau manwl yn ddefnyddiol i ddarparu gwybodaeth ar gyfer cyflawni'r strategaeth. Pwysleisiodd nifer o'r ymatebion bwysigrwydd meithrin dealltwriaeth well o systemau draenio ac, yn arbennig, yr angen i sicrhau nad ydynt yn cael eu defnyddio i waredu deunyddiau gwastraff megis braster a hancesi sychu yn amhriodol.*

### 4.8 Cynigion: Adran 7 - Cefnogi Dulliau Cyflenwi

Mae'r gyfres olaf o gynigion ar gyfer dŵr ynghyd â'r ymgynghoriad ar y strategaeth yn rhoi manylion am y camau rydym yn bwriadu eu cymryd er mwyn helpu i gyflawni ein hamcanion a'n canlyniadau strategol.

**Cwestiwn 24: Ydych chi'n cytuno â'n hymagwedd i sicrhau bod gwaith rheoleiddio yn canolbwyntio ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru? A oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill ar gyfer y fframwaith rheoleiddio ac a yw'n addas i'r diben?**

Cafwyd 26 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Nododd naw o'r ymatebwyr yn benodol eu bod yn cytuno â'r ymagwedd i sicrhau bod gwaith rheoleiddio yn canolbwyntio ar flaenoriaethau, ac ni nododd unrhyw ymatebwyr yn benodol eu bod yn anghytuno â'r ymagwedd hon. Cyflwynodd 23 o ymatebwyr sylwadau a/neu awgrymiadau ychwanegol ynglŷn â'r fframwaith rheoleiddio.

**Pwyntiau a Themâu Allweddol**

- Cyfeiriodd sawl ymatebydd at gynigion i gysoni ffiniau rheoliadol â rhai daearyddol, gan fynegi pryderon ynghylch y gost i'r cwmnïau dŵr a chwsmeriaid.

*'Over 25% of our daily supply to customers in the north west of England is abstracted from sources that have headwaters in Wales (River Dee and Lake Vryrnwy). We are therefore keen to ensure that we are consulted on any proposed changes to regulation, and would object strongly to any changes that threaten access, or increase cost of accessing, those key sources.'*

*- United Unitilies*

- Roedd nifer o sefydliadau amgylcheddol a chadwraeth am weld Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar wella ecoleg, ansawdd dŵr a'r amgylchedd dŵr, gan nodi y dylai ddefnyddio pwerau sy'n bodoli eisoes i orfodi hyn cymaint â phosibl.

- Pwysleisiodd un ymatebydd bwysigrwydd sicrhau cydymffurfiaeth â Chyfarwyddebau'r UE, megis y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, waeth beth fo'r blaenoriaethau.

- Nodwyd y dylai unrhyw newid i ffiniau rheoliadol fod yn amodol ar asesiad o'r costau a'r manteision i gwsmeriaid a'r amgylchedd.

- Mynegodd un ymatebydd bryder y byddai cysoni'r ffin reoliadol a'r ffin ddaearyddol yn golygu bod cwsmeriaid yn Swydd Henffordd yn cael gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth gan ymgymerwr gwahanol ac y gall rhannu'r cyfrifoldeb am ddalgylch olygu bod llai o gymhelliant i gwmnïau ddiogelu'r amgylchedd dŵr.

- Mynegwyd nifer o safbwyntiau gwahanol ynglŷn â chynrychiolaeth yn Fforwm Dŵr Cymru. Roedd rhai o'r farn bod angen mwy o gynrychiolaeth gan sefydliadau amgylcheddol tra roedd eraill yn pryderu y byddai hyn yn 'mygu' barn y diwydiant a chyrff defnyddwyr.

- Nodwyd bod angen cysylltu blaenoriaethau o ran dŵr â Bil Cenedlaethau'r Dyfodol a Bil yr Amgylchedd.

**Cwestiwn 25:**
**A oes unrhyw weithredoedd eraill y dylem eu cyflawni er mwyn cefnogi arloesedd ar draws y sector dŵr cyfan?**

Cawsom 12 o ymatebion i'r cwestiwn hwn

**Pwyntiau a Themâu Allweddol**

- Awgrymwyd ychydig o gamau gweithredu ychwanegol, gan gynnwys y canlynol:
  - Dylid gwneud rhagor o waith i edrych ar newid mewn ymddygiad mewn perthynas â chynaliadwyedd.
  - Dylid edrych ar argymhellion Partneriaeth Ymchwil ac Arloesedd y DU ar gyfer Dŵr.
  - Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys yr agenda dŵr fel prif her ym Maes Gweithredu 6 o strategaeth arloesi Cymru.
  - Dylem sicrhau ein bod yn edrych y tu hwnt i Gymru, tuag at y DU a'r byd er mwyn cefnogi arloesedd.

**Cwestiwn 26:**
**Beth arall y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu busnesau yn y sector dŵr i dyfu a ffynnu'n effeithiol?**

Cawsom 15 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

**Pwyntiau a Themâu Allweddol**

- Drwy hyrwyddo arloesedd ac arfer gorau ar gyfer y defnydd o ddŵr ac elifion awgrymodd nifer o ymatebwyr y gallai Cymru greu mantais dechnegol yn y maes hwn, gan godi ei broffil a dod yn ganolfan ragoriaeth. Dylai'r sector dŵr hefyd chwarae mwy o rôl yn y mentrau arloesi a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, er mwyn i'w heriau gael eu diffinio'n well fel y gall y byd academaidd a'r sector preifat weithio ar atebion.

- Awgrymwyd y byddai cyflwyno cystadleuaeth i'r diwydiant dŵr yn creu sector cryfach.

- Nododd un ymatebydd ei fod o'r farn nad oedd unrhyw reswm pam y dylai Llywodraeth Cymru chwarae rhan fwy gweithredol yn y diwydiant dŵr preifat ac y dylid gadael hyn i'r rheoleiddwyr.

- Roedd un ymatebydd o'r farn y dylem ymestyn y gynrychiolaeth ar y Fforwm Dŵr i gynnwys cynrychiolwyr ar y gadwyn gyflenwi

- Croesawodd dau ymatebydd symudiadau gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan weithlu Cymru y set sgiliau gywir er mwyn diwallu anghenion o ran rheoli dŵr yn y dyfodol.

- Roedd un ymatebydd am i ni sicrhau y caiff rheoliadau eu rhoi ar waith yn amserol ac yn gyson.

**Cwestiwn 27:**
**A oes unrhyw weithredoedd eraill y mae angen i Lywodraeth Cymru eu cyflawni er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Strategaeth hon?**

Cawsom 16 o ymatebion i'r cwestiwn hwn:

**Pwyntiau a Themâu Allweddol**

- Roedd un ymatebydd o'r farn bod angen cysylltu'r strategaeth yn agosach â chynlluniau a strategaethau eraill a deddfwriaeth arall. Roedd un arall am iddi gael ei hintegreiddio'n fwy â pholisi cynllunio a pholisi morol.

- Awgrymwyd y dylid cynnal adolygiad o gystadleuaeth yn y sector dŵr sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cwmnïau perthnasol.

- Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylem gynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cadwraeth dŵr.

- Pwysleisiodd un ymatebydd bwysigrwydd tystiolaeth wrth ddatblygu polisi dŵr a chroesawodd yr ymrwymiad yn y strategaeth i ddibynnu ar hyn.

- Awgrymodd un ymatebydd y dylem wneud rhagor o ymchwil i ôl troed dŵr Cymru.

**Cwestiwn 28:**
**Pa wybodaeth fyddai'n ddefnyddiol i asesu sut mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni yn erbyn y canlyniadau a'r gweithredoedd allweddol yn y Strategaeth?**

Cawsom 14 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

**Pwyntiau a Themâu Allweddol**

- Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y byddai datganiad neu gynllun yn nodi sut y caiff y cynlluniau eu cyflawni, ac erbyn pryd, yn ddefnyddiol, yn ogystal â chyfnodau adolygu penodol i asesu hyn.

- Awgrymwyd y dylid gwneud cysylltiadau â gwerthusiadau eraill a'u cydnabod, yn arbennig mewn perthynas â Rhaglenni Adnoddau Naturiol, Morol ac Amaethyddol ehangach.

- Mae'r dangosyddion canlynol ymhlith rhai yr awgrymodd ymatebwyr y byddent yn ddefnyddiol i asesu pa gynnydd mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud yn erbyn y canlyniadau allweddol yn y Strategaeth:

    - Prisiau i ddefnyddwyr, gan gynnwys defnyddwyr busnes
    - Data ar berfformiad gwasanaethau allweddol gan gynnwys effeithlonrwydd dŵr
    - Data ar foddhad cwsmeriaid
    - Niferoedd stociau pysgod
    - Cofrestr risg ar gyfer y strategaeth
    - Manteision a niwed i'r amgylchedd hanesyddol
    - Targedau a ffigurau cydymffurfiaeth y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
    - Targedau ar gyfer Ansawdd Dŵr Ymdrochi a thargedau'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd
    - Cyflwr gwlyptiroedd SoDdGAoedd
    - Gweithredu SuDS
    - Faint o ddŵr sy'n cael ei gyflenwi
    - Canran y dŵr a gollir oherwydd gollyngiadau wrth ei gyflenwi
    - Canran y cartrefi â mesurydd dŵr
    - Nifer yr adolygiadau o drwyddedau tynnu dŵr
    - Defnydd cyfartalog cartrefi y pen
    - Nifer y llifogydd difrifol
    - Adfer corsydd organig ucheldiroedd

- Roedd un ymatebydd o'r farn y dylid defnyddio nifer gymharol fach o fesurau meintiol ac ansoddol, er mwyn sicrhau bod cynnydd yn hawdd i'w ddeall a'i gyfleu. Awgrymwyd hefyd y dylid egluro'r sefyllfa sylfaenol bresennol.

***Dadansoddiad o'r Adran***

*Cafwyd rhai syniadau defnyddiol gan ymatebwyr ynglŷn â chamau eraill y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd er mwyn helpu i gyflawni ei hamcanion ar gyfer dŵr yng Nghymru, a fydd yn bwydo i mewn i'r ddogfen derfynol a gwaith dilynol. Yn benodol, gwaith ymchwil e mwyn helpu i roi argymhellion Comisiwn Silk ar gyfer dŵr ar waith.*

**Cwestiwn 29:**
**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:**

Cyflwynodd rhai o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad sylwadau pellach ar y Strategaeth Ddŵr a'r polisi dŵr, naill ai mewn ymateb i'r cwestiwn hwn neu rywle arall yn eu hymateb. Crynhoir prif bwyntiau pob sylw ychwanegol isod.

- Croesawodd sawl ymatebydd y gweithdai ar y strategaeth a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r Strategaeth Ddŵr i Gymru, fel cyfle i ddeall y gwaith a'r dylanwad ar gyfer cynigion polisi sy'n datblygu ac fel cyfle gwirioneddol i fwydo i mewn i'r gwaith o ddatblygu agenda dŵr y Llywodraeth.

- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn, fel strategaeth ar gyfer dŵr, nad oedd cwmpas y ddogfen yn ddigon eang. Yn benodol, ystyriwyd y dylid bod wedi cynnwys mwy ynghylch rheoli'r perygl o lifogydd.

- Roedd rhai ymatebwyr hefyd am i'r strategaeth nodi dulliau cyflawni, camau gweithredu ac amserlenni mwy penodol.

- Cawsom rai ymatebion a nododd fod angen i'r strategaeth ffurfio mwy o gysylltiadau â strategaethau eraill sy'n ymwneud â dŵr, megis y Strategaeth Rheoli Parthau Arfordirol.

- Roedd sawl corff cadwraeth am weld y strategaeth yn rhoi mwy o sylw i wella bywyd gwyllt a bioamrywiaeth, gan nodi y dylid pennu blaenoriaethau penodol a fydd yn helpu i gyflawni'r uchelgais hon.

- Lleisiodd y diwydiant cloddio am fwynau eu pryderon ynghylch oedi ac ansicrwydd o ran sut y câi eithriadau dihysbyddu eu dileu o dan Ddeddf Dŵr 2003.

- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai'r strategaeth yn cael budd o weledigaeth fwy pendant.

- Roedd nifer o ymatebwyr am weld mwy o gyfeiriadau at y defnydd o sefydliadau anllywodraethol o fewn y strategaeth.

## 3. Rhestr Lawn o'r Ymatebwyr

1. Adrian Addis
2. Albion Water
3. Allen Lambert
4. Panel Arbenigol Cymru Gyfan ar Lygredd
5. Aluline Group Ltd
6. AMEC Environment and Infrastructure
7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
8. Business Stream
9. Prifysgol Caerdydd
10. Cefas, Grŵp Diogelwch Bwyd
11. Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol
12. Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, Cymru
13. Cyngor ar Bopeth Cymru
14. CLA Cymru
15. Cyngor Defnyddwyr Dŵr
16. Cyswllt Amgylchedd Cymru
17. David Nattress
18. Dŵr Dyffryn Dyfrdwy
19. Dŵr Cymru
20. Undeb Amaethwyr Cymru
21. Ffederasiwn Busnesau Bach
22. Gill Neale
23. Glandŵr Cymru
24. Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
25. Sefydliad yr Archeolegwyr
26. Sefydliad y Peirianwyr Sifil
27. Keith G Pratley MBE
28. Lafarge Tarmac Trading Ltd
29. Sefydliad Tirlunio Cymru
30. Cymdeithas Cynnyrch Mwynol
31. Cyfoeth Naturiol Cymru
32. Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
33. Parciau Cenedlaethol Cymru
34. Cymdeithas Carthffosiaeth Genedlaethol
35. National Surface Water and SuDS Group
36. Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
37. Ofwat
38. Oil Care Campaign
39. Cyngor Sir Penfro
40. Peter Varley
41. Iechyd Cyhoeddus Cymru
42. Reservoir Action Group
43. Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
44. Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig Cymru
45. Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol
46. RSPB Cymru
47. Severn Trent

48. Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU
49. United Utilities Group
50. Partneriaeth Dŵr ac Iechyd Cymru
51. Y Cynllun Ymgynghori Rheoliadau Dŵr Cyfyngedig
52. Water UK
53. Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir
54. Yr Ymddiriedolaeth Natur
55. WRc plc
56. .Ymateb Anhysbys
57. .Ymateb Anhysbys
58. .Ymateb Anhysbys
59. .Ymateb Anhysbys